**EITEM AR YR AGENDA: 18**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15fed Mawrth 2010**

**YMGYNGHORIAD YNGLŶN Â STRWYTHURAU GWLEIDYDDOL GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Nodi dogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â strwythurau gwleidyddol, a darparu ymateb.

**Y Cefndir**

2 Yn Rhagfyr, fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad bapur ymgynghorol ynglŷn â chraffu a strwythur gwleidyddol mewn Llywodraeth Leol. Gan ddefnyddio'r pwerau fframwaith a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygiad Economaidd ac Adeiladu 2009, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno mesur ar graffu a strwythurau gwleidyddol. Mae'r cyfnod ymgynghorol yn dod i ben ar Fawrth 17eg, 2010. Ynghlwm, fel Atodiad 1, mae rhan o'r ddogfen ymgynghorol.

**Gwybodaeth**

3 Tynnir sylw'r Aelodau at baragraff 15 (pwerau'r gweinidog) a 16-18 (cysylltiadau â'r gymuned) yn y darn. Cynghorir yr Awdurdod i ymateb i Lywodraeth y Cynulliad na ddylid defnyddio pwerau'r gweinidog i ymyrryd ond mewn achosion eithafol a phan fetho popeth arall, ac yn unol â phrotocol clir (para. 15). Cynghorir yr Awdurdod hefyd i ymateb y bydd yn cydweithredu â chyrff

cyhoeddus eraill, megis awdurdodau unedol, i graffu'n effeithiol a chael cyfranogiad y gymuned, a ddarperir mewn trefniadau y mae modd eu rheoli ac sy'n gymesur. Dan baragraff 14, mae'r Awdurdod yn ddiweddar wedi penodi Pwyllgor Archwilio, a byddai'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

## Argymhelliad

4 Bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys y ddogfen ymgynghorol, ac yn darparu ymateb i Lywodraeth y Cynulliad.